

Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu Governing Body Annual Report



2022 – 2023





Robert Evans, QPM

CADEIRYDD Y
CORFF LLYWODRAETHU

CHAIR OF THE GOVERNING BODY

Mae'n bleser gen i gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, a hynny ar adeg dathlu 23 mlynedd o'n bodolaeth.

Os mai blwyddyn o adferiad oedd 2021/22, yn sicr dychwelyd i fod yn flwyddyn o atgyfnerthu a chynnydd fel ei gilydd fu hanes y llynedd. Mae cymuned yr ysgol wedi dysgu llawer ar ôl y pandemig a bu'r mantra "peidiwch byth â gadael i argyfwng da gael ei wastraffu" wrth wraidd ein syniadau strategol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Un peth a ddysgon ni gan yr argyfwng oedd, er fod canlyniadau academaidd yn hanfodol bwysig, does dim byd pwysicach na'r angen i sicrhau iechyd, lles a llesiant ein disgyblion a'n staff a hynny sydd wrth wraidd popeth a wnawn. Rhoddwyd pwyslais sylweddol ar sicrhau bod ein gofal bugeiliol yn addas i'r diben ar gyfer y heriau ôl pandemig; sicrhawyd strwythurau newydd ac adnoddau ychwanegol ar gyfer y maes hanfodol hwn, gan gynnwys uwch arweinwyr penodig â chyfrifoldebau clir. Mae'r Llywodraethwyr yn ddiolchgar i'r Pennaeth am ei sylw personol yntau hefyd.

Mae'r disgyblion wrth gwrs wedi dychwelyd i ystâd ysgol fywiog; rydyn ni'n ymfalchïo, wrth reswm, am y gwaith sylweddol sydd wedi'i gynnal a'i orffen. Yn yr un modd, mae'r ysgol wedi gwneud camau bras i ddatblygu ei hagenda ddigidol ac yn parhau i wella'r is-adeiledd a'r caledwedd angenrheidiol i gynnig sgiliau'r oes ddigidol i'n disgyblion.

It is with great pleasure that I present my Annual Report on behalf of the Governing Body at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, in this our 23rd year.

If 2021/22 was very a much a year of recovery, the last year has certainly returned to one of consolidation and progress in equal measures. The school community has learned much from the passing of the pandemic and the mantra "never let a good crisis go to waste" has been at the heart of our strategic thinking for much of the last year.

One thing that the crisis taught us was that whilst academic results are vitally important, nothing trumps the need to ensure the health, welfare and wellbeing of our pupils and staff is at the heart of all that we do. Significant emphasis has been placed on ensuring our pastoral care is fit for the post-pandemic challenges; new structures and extra resources have been given to this vital area, including dedicated senior leaders having clear lines of responsibility. Governors are grateful to the Headteacher for his personal attention also.

Pupils have of course returned to a modernised vibrant school estate; we are rightly proud of the significant works that have been carried out to completion. Equally, the school has made big strides in advancing its digital agenda and continues to enhance the infrastructure and hardware needed to provide our pupils with skills for the digital age.

Tra bod yr Uwch Dîm Arwain yn dangos ei allu i ymateb i amgylcheddau cyfnewidiol, mae dau aelod allweddol, hir eu gwasanaeth, wedi ein gadael i fynd i feysydd eraill. Gadawodd Becca Pugh, Dirprwy Bennaeth, a Bethan Wyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol, y naill i Ben-y -Garth a'r llall i Estyn; bu Bethan gyda ni ers 2002. Dymunwn yn dda i'r ddwy ohonyn nhw gan ddiolch iddyn nhw am eu cyfraniad enfawr i'r ysgol. Hefyd gadawodd staff eraill naill i ymddeol neu i ddatblygu eu gyrfa oedd; dymunwn y gorau iddyn nhw i gyd.

Mae'n glod mawr i'n staff ein bod yn gallu dathlu cyflawniadau rhyfeddol ein disgyblion. Yn academaidd, rydyn ni'n parhau i gynhyrchu canlyniadau lefel A a TGAU sy'n destun balchder. Ond mae bywyd ysgol lawer mwy na chanlyniadau academaidd; o ran chwaraeon a diwylliant, mae ein disgyblion unwaith eto wedi rhagori. Yn ystod blwyddyn gwelodd yr ysgol ddyfarnu'r trydydd cap rygbi rhyngwladol llawn y dynion (Mason Grady), a chap cyntaf pêl-droed llawn y dynion (Wes Burns), ac enillodd ein timau hoci merched Bencampwriaethau Cenedlaethol Cymru i rai dan 16 oed ac i rai dan 18 oed. Yna daeth canlyniadau Eisteddfod yr Urdd. Roedd canlyniadau eleni y gorau erioed gyda dau drydydd, un ail a phum gwobr gyntaf. Ar ben hynny, ein tîm pêl-droed bechgyn o dan 16 oed oedd Pencampwyr Caerdydd a'r Fro a thîm rygbi'r bechgyn o dan 13 oed yn llwyddo i ddod yn ail yng ngêm derfynol Cwpan Cymru. Llongyfarchiadau calonog i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran ac rydyn ni'n hynod falch o bob un ohonyn nhw.

Ni fyddwn byth yn gorffwys ar ein rhwyfau a bod yn hunanfodlon yn YGBM, ac mae nifer o heriau strategol yn parhau. Mae recriwtio athrawon, cynllun y cwricwlwm, safon gwisg ysgol, monitro perfformiad a phwysau cyllidebol yn parhau'n feysydd sy'n peri pryder i lywodraethwyr. Er bod datrysiadau i'r heriau yn rhannol tu allan i faes y corff llywodraethol, bydd yn dal i lobio am gymorth a bod yn barod i weithio gyda chyrrff gwleidyddol perthnasol yn unol â hynny.

Whilst the Senior Leadership Team demonstrates its ability to respond to changing environments, two key and long serving members left us for pastures new. Deputy Headteacher Becca Pugh and Assistant Headteacher Bethan Wyn Jones left for Pen Y Garth and Estyn respectively; Bethan has been with us since 2002. We wish them both well and thank them for their huge contribution to the school. Likewise, several other teachers and staff have left on retirement or career development; we wish them all the very best.

It is with huge credit to our staff that we are able to celebrate the amazing achievements of our pupils. Academically we continue to produce A level and GCSE results with on going pride. But school life is of course much more than academic outcomes; in sporting and cultural terms our pupils have once again excelled. In a year where the school gained its third full mens rugby International cap (Mason Grady), its first full mens soccer cap (Wes Burns), and our girls hockey teams won the Welsh National Championships at both Under 16 and Under 18, along came the results of the Urdd Eisteddfod. This years results were our best ever with two third placings, one second and five firsts. Furthermore, our Under 16 boys soccer team were Cardiff and Vale Champions and our Under 13 boys rugby were runners up in the Welsh Cup Final. Huge congratulations to all pupils who took part; we are proud of each and everyone of them.

We will never be complacent at YGBM however and several strategic challenges remain. Teacher recruitment, curriculum design, standards of dress, performance monitoring and budgetary pressures are all areas of concern to governors. Whilst solutions to those challenges are in part out-side the sphere of the governing body, it will continue to lobby for support and be ready to work with relevant political bodies accordingly. Despite those challenges, numbers of projected and actual pupils coming to YGBM continue to grow; we are

Er gwaethaf yr heriau hynny, mae'r niferoedd o ddisgyblion a ragwelir a ddaw i YGBM a'r gwir nifer a ddaw, yn dal i gynyddu; dim ond ychydig o flynyddoedd eto a byddwn wedi cyrraedd ein capasiti llawn. I'r perwyl hynny, ynghyd â'r Pennaeth, rydw i wedi cychwyn trafodaethau anffurfiol gyda Chyngor y Fro ar beth fydd hyn yn ei olygu i ni ac i'r mater ehangach o Addysg Cyfrwng Gymraeg yn y Fro. Dylai'r galw parhaus gan rieni i sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant ein calonogi'n ddirfawr.

Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn y cymorth a gwaith caled fy nghyd-lywodraethwyr drwy gydol y flwyddyn hon eto. Mae'r corff llywodraethol yn cynnwys amrediad o is-bwyllgorau a rhaid diolch yn arbennig i Gadeiryddion y pwyllgorau hynny sy'n ysgwyddo ymrwymiadau ychwanegol sylweddol. Rydw i'n hynod o ddiolchgar i Anne-Louise Llewellyn-Morgan, Sally-Ann Efstathiou, Cathy Williams a Huw Llewellyn-Morgan. Ymadawodd Becca Pugh a Sioned Jones â'r corff llywodraethol i fynd i swyddi addysgu newydd; rydyn ni'n diolch iddyn nhw yn gynnes am eu cyfraniadau. Yn yr un modd, rydyn ni hefyd yn croesawu Ffion Williams a Stephanie Johns yn eu lle.

Yn olaf, fy nioch didwyll i Glerc y Llywodraethwyr, Mrs Charlotte Déchamps-Evans, am ei gwaith gwych yn fy mriffio i a'm cyd-lywodraethwyr a chadw trefn; rydyn ni'n hynod ddiolchgar iddi.

only a few years away from reaching pupil number capacity. To that end, together with the Headteacher, I have begun informal discussions with the Vale Council on what this means for us and the wider issue of Welsh Medium Education in the Vale.

We should be greatly encouraged by the continuing demand from parents to have their children educated through the medium of Welsh.

The support and hard work of my fellow governors throughout the year has again been greatly appreciated. The governing body consists of a range of sub-committees and special thanks go to Chairs who take on significant extra commitments. I am extremely grateful to Anne-Louise Llewellyn-Morgan, Sally-Ann Efstathiou, Cathy Williams and Huw Llewellyn-Morgan. Becca Pugh and Sioned Jones left the governing body to take up new teaching roles; we thank them both warmly for their contributions. Equally, we welcome Ffion Williams and Stephanie Johns in their places.

Finally, my sincere thanks go to the Clerk to the Governors, Mrs Charlotte Déchamps-Evans for her fantastic work in keeping myself and fellow governors well briefed and organised; we are extremely grateful to her.



Rhys Angell Jones

Y PENNAETH
HEAD TEACHER

Pleser yw cyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â datblygiadau a llwyddiannau'r ysgol yn ystod 2022-23 wrth i ein blwyddyn 'arferol' lawn gyntaf, yn dilyn y pandemig, ddirwyn i ben. Mae hon wedi bod y flwyddyn i'w dathlu am nifer o resymau sy'n ymwneud â llwyddiannau'r flwyddyn a fu ac hefyd ein cynlluniau cyffrous ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Tra bod llwyddiannau academaidd ein disgyblion bob amser wedi bod, ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn destun balchder, credaf fod naws ac ethos yr ysgol wedi datblygu mewn ffordd positif yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan sicrhau fod iechyd a lles ein disgyblion a'n staff yn derbyn yr un sylw a'r un lefel o bwysigrwydd. Mae wataw wedi bod yn amlwg fod angen llawer o feithrin a gofal bugeiliol ar ein disgyblion cyn eu bod yn barod i ddysgu ac i lwyddo yn yr ysgol ond mae hyn yn fwy amlwg nac erioed yn dilyn y pandemig. O ganlyniad, mae angen rhoi clod enfawr i staff yr ysgol sy'n gweithio'n ddiddiwedd er mwyn sicrhau fod ein disgyblion yn derbyn yr hyn sydd ei angen arnynt yn dorfol, ond yn bwysicach fyth, fel unigolion, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau posib i lwyddo yn academaidd ac yn allgyrsiol.

Byddwn yn awgrymu bod yr hyn sydd ar waith yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn gweithio ar gyfer y mwyafrif o'n disgyblion a does dim angen edrych ymhellach na llwyddiannau grwpiau o blant ac unigolion i weld hyn. Ar lefel unigol, mae y mwyafrif o'n disgyblion yn llwyddo yn eu gwarsi ac o ganlyniad yn llwyddo yn eu harholiadau mewnol ac allanol. Yn ogystal, rydym wedi mwynhau paratoi a chefnogi ein disgyblion

It is a pleasure to present information relating to the school's developments and successes during 2022-23 as our full 'normal' year, following the pandemic, draws to a close. This has been a year to celebrate for a number of reasons relating to the successes of the past year and also as we have been hard at work creating exciting plans for the year ahead.

While the academic achievements of our pupils have always been, and continue to be, a priority and a source of pride, the tone and ethos of the school has developed in a positive way in recent years ensuring that the health and wellbeing of our pupils and staff receives the same attention and level of importance. It has always been clear that our pupils need a lot of nurturing and pastoral care before they are ready to learn and succeed in school but this is more evident than ever following the pandemic. As a result, huge credit needs to be given to the staff who work tirelessly to ensure that all of our pupils receive what they need to flourish as individuals, to provide them with the best possible chance of success both academically and in wider school life.

I would suggest that the provision at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg meets the needs of the majority of our pupils and one need look no further than the achievements of groups of children and individuals to see this. On an individual level, the majority of our pupils succeed in their lessons and consequently succeed in their internal and external examinations. In addition, we have enjoyed preparing and supporting our pupils and have taken great pride in watching them experience huge successes in their sporting

ac wedi ymfalchio ynddynt wrth eu gwyllo yn profi llwyddiannau enfawr ar y meysydd chwaraeon ac ar lwyfannau y celfyddydau ond hefyd mewn amrywiaeth o ddiwyddiadau a chystadlaethau pynciol eraill.

Mae ein timau chwaraeon merched a bechgyn wedi dangos eu doniau eleni wrth gael eu coronni yn bencampwyr hoci Merched Cymru dan-16 ac hefyd dan-18, yn bencampwyr pêl-droed bechgyn Caerdydd a'r Fro dan-16 a dan-15 ac wedi dod yn ail yng Nghwpan Rygbi Cymru dan-13. Mae nifer o ddisgyblion hefyd wedi profi llwyddiant unigol ac fel rhan o dim mewn ystod eang o gampau eraill gan gynnwys, athletau, tenis, badminton, sglefrïo iâ, gymnasteg, rhwyfo, hwylio, criced, pêl-rhwyd, marchogaeth, crefftau ymladd a sgïo.

Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn i'w chofio i'r disgyblion sy'n ymddiddori y celfyddydau perfformio. Mae nifer wedi profi llwyddiannau personol yn lleol ac yn rhyngwladol trwy ganu a dawns pan yn cynrychioli'r ysgol a chlybiau. Yn ogystal, yn ystod tymor yr Hydref, llwyfanwyd sioe gerdd Billy Elliott ble cafodd dros 1,000 o rieni ac aelodau eraill o'n cymuned y cyfle i fwynhau gwledd o actio, dawnsio a chanu o'r radd flaenaf. Rhoddodd safon y perfformiadau a'r adborth gan y cyhoedd hyder i'n disgyblion talentog, a pwy fyddai wedi breuddwydio y byddem yn gweld y fath llwyddiant â'r hyn a welsom yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin. Cafodd safon y perfformiadau eu cydnabod wrth i ni ddod yn 1af mewn 5 cystadleuaeth, gan gynnwys dawns a'r parti bechgyn am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol, yn ail mewn dwy gystadleuaeth, yn drydydd mewn un arall ynghyd â llwyddiant enfawr i'r mathemategwyr ble ddaeth 4 yn yr ugain uchaf allan o fil o ymgeiswyr ledled Cymru. Gwelwyd buddigoliaeth hefyd i gôr o ddisgyblion o flynyddoedd 5-9 yr ysgol yn eu cystadleuaeth gyntaf erioed yng Ngŵyl Fawr Aberteifi. Bu'n bleser llwyr gweld cymaint o ddisgyblion cynradd ac uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn diddanu y cyhoedd yng Ngŵyl Fach y Fro eto eleni. Coronwyd ac ymfalchiwyd yn hyn oll mewn cyngerdd 'Dathlu Doniau' diwedd blwyddyn yn Neuadd yr ysgol.

Rydym hefyd wedi bod yn falch iawn gweld disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gystadlu

endeavors and in the performing arts, but also in a variety of other subject events and competitions.

Our girls and boys' sports teams have excelled this year by being crowned under-16 and also under-18 Welsh Girls hockey champions, our under-16 and under-15 boys were victorious in their respective Cardiff and Vale football cup competitions and our under-13 boys were runners-up in the Welsh Rugby Cup. A number of pupils have also experienced individual success participating in a wide range of other sports including, athletics, tennis, badminton, ice skating, gymnastics, rowing, sailing, cricket, netball, horse riding, martial arts and skiing.

It has also been a year to remember for pupils committed to the performing arts. Many have experienced personal successes locally and internationally through song and dance while representing the school and local clubs. In addition, during the Autumn term, the musical Billy Elliott was staged where over 1,000 parents and other members of our community had the opportunity to enjoy a feast of high-quality acting, dancing and singing. The standard of performances and feedback from the public gave confidence to our talented pupils, and who would have dreamt that we would see the success witnessed at the Carmarthenshire Urdd Eisteddfod.

The quality of our performers was recognised as we came first in 5 competitions, including dance and the boys choir for the first time in the school's history, second in two more competitions, third in another and four of our mathematicians came in the top twenty out of a thousand entries across Wales. Competitors in a newly formed choir for pupils in years 5-9 also won their first ever competition at a festival in Cardigan. It was also an absolute pleasure to see so many primary and secondary pupils from the school entertaining the public at Gŵyl Fach y Fro again this year. All of this was celebrated at an end of year concert staged to celebrate the talents of our pupils in the school's Hall at the end of a very successful year.

We have also been delighted to see pupils taking advantage of opportunities to participate in various events and activities

ar lefel arbenigol pynciol eleni a gwelwyd llwyddiant mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus, Talwrn y Beirdd, cystadleuaeth Wyddoniaeth ac yn y byd Technoleg a Dylunio. Yn ychwanegol, mae cannoedd o ddisgyblion wedi bod ar gyrisiau, triapiau ac ar alldeithiau sydd wedi eu trefnu gan staff yn y mwyafrif helaeth o'n hadrannau; ledled Cymru, Prydain a Gorllewin Ewrop unwaith eto eleni. Does dim dwywaith amdani, mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg heb eu hail o ganlyniad i ymroddiad a thalentau ein staff.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd nesaf ble byddwn yn croesawu mwy o ddisgyblion i flwyddyn 7 nac erioed o'r blaen, mae llawer o waith wedi'i gyflawni i geisio sicrhau yr un llwyddiant â'r hyn a brofwyd eleni. Rydym yn ymrwymo'n llwyr i wneud ein gorau i ddarparu yr addysg orau a'r cyfleoedd gorau er mwyn sicrhau fod pob disgybl beth bynnag fo'u cefndir, eu gallu a'u diddordebau yn llwyddo yn yr ysgol ac yn cyrraedd pen eu mynydd personol.

Rydym wedi ail-strwythuro ein system fugeiliol a chreu rolau newydd ar gyfer staff er mwyn sicrhau fod ein prosesau lles a diogelu yn gryfach nac erioed. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn caledwedd a meddalwedd newydd i sicrhau fod ein disgyblion yn ddiogel ym mhob ardal o'r ysgol trwy gydol y diwrnod ysgol. Ond efallai yn bwysicach na dim, rydym wedi bod yn brysur trwy'r flwyddyn yn casglu barn ein holl randdeiliad drwy fforymau llais y disgybl a llais y staff ac hefyd drwy holiaduron i rieni a staff er mwyn gallu deall beth maent yn meddwl sy'n dda ynglŷn â'r ysgol a ble gallem wella ein systemau a'n gweithredoedd. Bydd newidiadau amlwg yn digwydd o ganlyniad i'r gwaith hyn ac edrychaf ymlaen at eich diweddarau ar y newidiadau a'u llwyddiant yn ystod y flwyddyn.

I orffen, hoffwn ddiolch i holl staff, disgyblion, teuluoedd a llywodraethwyr yr ysgol am eu cydweithrediad a'u gwaith caled eleni wrth i ni barhau i fod yn drwm i'n gwerthoedd o Barch, Cymreictod a Dyfalbarhad er mwyn cyflawni ein uchelgais o sicrhau llwyddiant i bawb. Rydym yn parhau i fod yn benderfynol o gyrraedd ein nod o sicrhau mai Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yw yr ysgol orau yng Nghymru.

through other subjects this year. There has been success in public speaking competitions, Talwrn y Beirdd, science competitions and in the field of Design and Technology. In addition, hundreds of pupils have been on courses, trips and expeditions organised by staff from the vast majority of our departments; to locations across Wales, Britain and Western Europe. There is no doubt about it, the opportunities available to pupils at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg are second to none as a result of the dedication and talents of our staff.

Looking ahead to the next academic year where we will welcome more pupils to year 7 than ever before, a raft of work has been undertaken to try and achieve the same levels of success as experienced this year. We are fully committed to doing our best to provide the best education and the best opportunities to ensure that all pupils regardless of background, ability and interests succeed in school and achieve their dreams and aspirations.

We have re-structured our pastoral system and created new roles for staff to ensure our wellbeing and safeguarding processes are stronger than ever. We have also invested in new hardware and software to ensure our pupils are safe in all areas of school throughout the school day. But perhaps most importantly, we have been busy all year gathering the views of all our stakeholders through pupil voice and staff voice forums and also through questionnaires for parents and staff to be able to understand what they think is good about the school and where we could improve our systems and processes. Noticeable changes will occur as a result of these works and I look forward to updating you on those changes and their success during the year.

To finish, I would like to thank all the school's staff, pupils, families and governors for their co-operation and hard work this year as we remain true to our values of Respect, Welshness and Perseverance to achieve our ambition of achieving success for all. We remain determined to achieve our goal of making Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg the best school in Wales.

Cynnydd ar argymhellion ESTYN

Adroddiad Arolygu 2019

A1: Gwella safonau, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-22 llwyddodd disgyblion yr ysgol i gyflawni y graddau arholiad gorau mae'r ysgol wedi eu gweld yng CA4 a CA5.

PRIF YSTADEGAU CA4

Sgôr Pwyntiau Cyfartalog	Cap 9	Llythrennedd	Rhifedd	Gwyddoniaeth	Sgiliau
Canlyniadau 2022	419	50	46	47	47
Canlyniadau 2021	429	49	45	48	40
Canlyniadau 2020	428	49	45	46	45
Canlyniadau 2019	417	47	46	46	43
Canlyniadau 2018	405	46	44	44	42

Allwedd i'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog

58+ = Gradd A* Grade 52+ = Gradd A Grade
46+ = Gradd B Grade 40+ = Gradd C Grade

Gorolwg Canlyniadau Blwyddyn 13 (Pob un yn % oni nodir yn wahanol)	2022	2021	2020	2019
A*-E	99	96	100	100
Trothwy Lefel 3 cymesur	99	98	98	100
3 A*-C neu'n fwy cymesur	83	75	75	68

A*/A	44.06	55.36	39.26	21.4
A* - C	89.45	95.5	92.64	81.3
A* - B	68.87	80.97	71.78	46.9

Nifer yn llwyddo yn y BAC	85	50	50	41
Canran yn llwyddo yn BAC	100	100	100	100
Canran o'r flwyddyn yn llwyddo yn BAC	96.59	90.91	90.91	100

A2: Sicrhau bod disgyblion yr adran uwchradd yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

Mae cryn fuddsoddiad wedi bod er mwyn sicrhau fod is-adeiledd, ystafelloedd ac offer technoleg gwybodaeth yr ysgol yn ein galluogi i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn effeithiol mewn gwrsi er mwyn datblygu medrau y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae cynllun strategol wedi ei wireddu sy'n golygu fod gan pob disgybl ym mlwyddyn 7 ddyfais (gliniadur) yn ei fag ar gyfer pob gwrsi.

Mae targed 2b yng Nghynllun Gwella'r Ysgol yn anelu at:

'Sicrhau ein bod yn darparu cwricwlwm sydd yn gyfoethog o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau, a sydd yn galluogi ein disgyblion i gyrraedd 'pen eu mynydd'

Mae'r gweithredoedd er mwyn cyflawni'r darged yn gofyn bod:

- Pob pwnc i gyfrannu at 'fap darpariaeth Technoleg Digidol' ac i sicrhau eu bod yn datblygu o leiaf un sgil o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FFCD)
- Amser i'w glustnodi mewn cyfarfod staff neu ddiwrnod HMS i sicrhau fod AP yn deall y FfCD. Sgiliau FfCD i'w mapio ar draws y cwricwlwm a'r map wedi ei ddiweddarau'
- Pob adran i greu tasgau digidol ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd da o'u gliniaduron'.

A3: Gwella prosesau monitro a hunanwerthuso yr ysgol gan sicrhau bod arweinwyr yn arfarnu darpariaeth yn sgil ei heffaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

Yn ystod 2021-22 roedd calendr Monitro a Hunanwerthuso ysgol gyfan ar waith. Mae holl staff yr ysgol yn gyfarwydd ac yn gyffyrddus gyda'r syniad mai pwrpas pob gweithgaredd yw 'canfod, rhannu a chysoni arfer dda' er mwyn gwella pob agwedd o waith yr ysgol.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd y gweithgareddau canlynol:

- Llais y disgybl** – ble roedd aelodau o'r Uwch Dim Arwain (UDA) ac Arweinwyr Canol (Penaethiaid Adran) yn sgwrsio gyda disgyblion ynglŷn â gwahanol elfennau o'r gwaith oedd i weld yn eu llyfrau
- Craffu ar lyfrau** – Gweithgaredd ble roedd Arweinwyr Pwnc (AP) a'u Rheolwr cyswllt o'r UDA yn craffu gwahanol agweddau o waith disgyblion ac athrawon yn llyfrau'r disgyblion. Roedd sgwrs broffesiynol yn galluogi Rheolwr Cyswllt i herio, a'r AP i fyfyrion ar ba arfer dda dylid ei rhannu ac agweddau i'w gwella o fewn yr adran.
- Taith ddysgu** – Cafodd 36 aelod o staff gyfle i ymweld â gwrsi mewn adrannau gwahanol Meithrin i Flwyddyn 13 i weld arferion/ strategaethau adalw gwahanol a newydd yn dilyn DPP ysgol gyfan.
- Rheoli Perfformiad** – Mae prosesau Rheoli Perfformiad yr ysgol wedi rhoi cyfle i bob aelod o staff werthuso eu gwaith er lles eu datblygiad personol fydd yn y pen draw o fudd i'w disgyblion. Mae cynlluniau yn eu lle i wella y broses ymhellach drwy ddefnyddio dulliau cymell yn ystod y flwyddyn nesaf.

A4: Mynd i'r afael a'r ddyled ariannol

Nid oes dyled ariannol wedi bodoli yn yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Progress made on ESTYN Inspection Report recommendations 2019

A1: Improve standards, particularly in Key Stage 4

During the academic year, pupils of the school succeeded to achieve the highest exam grades the school has seen in KS4 and KS5.

HEADLINE STATISTICS KS4

Average Point Scores	Capped 9	Literacy	Numeracy	Science	Skills
2022 Results	419	50	46	47	47
2021 Results	429	49	45	48	40
2020 Results	428	49	45	46	45
2019 Results	417	47	46	46	43
2018 Results	405	46	44	44	42

Key to Average Point Scores

58+ = Grade A* Grade 52+ = Grade A Grade
46+ = Grade B Grade 40+ = Grade C Grade

Overview of Year 13 results (all % unless noted)	2022	2021	2020	2019
A*-E	99	96	100	100
Level 3 Threshold	99	98	98	100
3 or more A*-C grades	83	75	75	68

A*/A	44.06	55.36	39.26	21.4
A* - C	89.45	95.5	92.64	81.3
A* - B	68.87	80.97	71.78	46.9

Number succeeding in the WBQ	85	50	50	41
% of entries succeeding in the WBQ	100	100	100	100
5 of Year Group succeeding in WBQ	96.59	90.91	90.91	100

A2: Ensure that pupils in the secondary department develop their information and communication technology skills across the curriculum

We have invested heavily to ensure that the school's infrastructure, rooms and information technology equipment enable us to use Information Technology effectively in lessons in order to develop pupils' abilities across the curriculum.

A strategic plan has been realised which means that all year 7 pupils have a device (laptop) in their bags for every lesson.

Target 2b in the School's Improvement Plan aims to:

'Ensure that we provide a curriculum rich in knowledge, skills and experiences which enables pupils to reach 'the summit of their mountain'.

These actions in order to achieve the target requires that:

- Every subject contributes to 'a map of Information Technology provision' developing at least one of the skills in the Digital Competence Framework (DCF)
- Time to be allotted in staff meetings or INSET days to ensure that the Subject Leader understands the DCF. DCF skills to be mapped across the curriculum have been updated
- Every department to design digital tasks for year 7 pupils in order to ensure that they make good use of their laptops.

A3: Improve the school's monitoring and self-evaluation processes, and ensure that leaders evaluate provision in line with its effect on pupils' standards and achievement

During 2021-22 the whole school Monitoring and Self evaluation calendar was implemented. All members of staff are familiar and comfortable with the idea that the purpose of all activities was to 'identify, share good practice and ensure consistency' in order to improve every aspect of the work in school.

During the year, the following activities occurred:

- **Pupil Voice**—
whereby members of the Senior Leadership Team (SLT) and Middle Leaders (Heads of Department) hold conversations with pupils about different elements of the work seen in their books
- **Scrutinize books**—
An activity where Subject Leaders and their SLT Line Manager scrutinize different aspects of the work of pupils in and teachers in pupils' books. A professional conversation enables the Line Manager to challenge the Subject Leader to reflect and consider which good practice ought to be shared and which aspects to improve within the department.
- **Learning journey**—
36 members of staff were afforded the opportunity to visit lessons in different departments from Meithrin to Year 13 in order to observe practices/ different and new recall strategies following whole school CPD.
- **Managing Performance**—
The school's Performance Management processes have given every member of staff the opportunity to evaluate their work for the benefit of their personal development which will eventually benefit their pupils. Schemes are in place to improve the process further by using coaching methods during next year.

A4: Address the financial deficit

The school has not had a financial deficit for the last two years.

Cynllun Gwella Ysgol 2021– 2026

Nod y CGY: Cymell, Diolgelu a Dysgu
(Creu Diwylliant Cymell sy'n arwain at Ddiwylliant Diogelu a Diwylliant Dysgu)

Amcan	Mehefin 2022	Mehefin 2023	Mehefin 2024
Blaenoriaeth 1: Iechyd a Lles			
1a) Creu cymuned Gymreig ble mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn ddiogel o fewn awyrgylch sydd wedi seilio ar safonau uchel sy'n datblygu dinasyddion egwyddorol gwybodur sydd yn falch o'u cymuned	<ul style="list-style-type: none"> Dim Saesneg i'w glywed ar dir yr ysgol (heblaw mewn gwersi Saesneg) Safon gwisg ysgol pob disgybl yn berffaith 	<ul style="list-style-type: none"> Rhwng 3-5 o werthoedd craidd yn bodoli yn yr ysgol a'r disgyblion a'r staff yn eu hymgorffori 	<ul style="list-style-type: none"> Safon Cymreictod rhagorol ar dir yr ysgol Pob disgybl a phob aelod o staff yn mwynhau bywyd ysgol
1b) Galluogi pawb i gydweithio mewn awyrgylch gynhyrchiol a phositif, gyda'r disgyblion yn datblygu yn unigolion iach, hyderus a pharchus	<ul style="list-style-type: none"> Defnydd cyson o'r siarter ymddygiad er mwyn sicrhau fod disgyblaeth cadarn a theg 	<ul style="list-style-type: none"> Y Cyngor Ysgol i ystyried anghenion lles disgyblion yr ysgol ym mhob cyfarfod a sut y gellir datblygu cymorth Sefydlu grŵp llais staff i roi adborth ar sut gall yr ysgol gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> Holl randdeiliaid yr ysgol yn barchus, cwrtais, hapus ac yn garedig Ymddygiad yn rhagorol
1c) Datblygu amgylchedd ble mae arfoesedd yn rhan o waith naturiol yr ysgol, er mwyn datblygu sgiliau mentrus a chreadigol ein disgyblion	<ul style="list-style-type: none"> Holl staff yr ysgol yn ymroi i ddatblygu eu hunain yn broffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> Ethos 'cymell' cryf yn amlwg ym mhob agwedd o waith yr ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygiadau cyffrous yn creu cyfleoedd newydd i staff ac i ddisgyblion yn gyson

School Improvement Plan 2021– 2026

Aim of SIP: Motivate, Protect and Learn
(Creating a Motivating Culture that leads to a Safeguarding Culture and a Learning Culture)

Objective	June 2022	June 2023	June 2024
Priority 1: Health and Wellbeing			
1a) Create a Welsh community where everyone feels that they belong and are safe within an atmosphere that is based on high standards that develop informed principled citizens who are proud of their community	<ul style="list-style-type: none"> No English to be heard on school grounds (except in English lessons) The standard of every pupil's school uniform is perfect 	<ul style="list-style-type: none"> Between 3-5 core values exist in the school and the pupils and staff incorporate them 	<ul style="list-style-type: none"> Excellent standard of Welshness on the school grounds Every pupil and every member of staff enjoying school life
1b) Enable everyone to work together in a productive and positive atmosphere, with the pupils developing into healthy, confident and respectful individuals	<ul style="list-style-type: none"> Constant use of the behaviour charter to ensure that there is firm and fair discipline 	<ul style="list-style-type: none"> The School Council to consider the welfare needs of the school's pupils at every meeting and how support can be developed Establish a staff voice group to give feedback on how the school can support a balance between work and life 	<ul style="list-style-type: none"> All the school's stakeholders are respectful, polite, happy and kind Behaviour is excellent
1c) Developing an environment where innovation is part of the school's natural work, in order to develop the enterprising and creative skills of our pupils	<ul style="list-style-type: none"> All the school's staff devote themselves to developing themselves professionally 	<ul style="list-style-type: none"> A strong 'motivation' ethos evident in all aspects of the school's work 	<ul style="list-style-type: none"> Exciting developments constantly creating new opportunities for staff and pupils

Cynllun Gwella Ysgol 2021– 2026

Amcan	Mehefin 2022	Mehefin 2023	Mehefin 2024
Blaenoriaeth 2: Dysgu ac Addysgu			
2a) Creu darpariaeth sy'n sicrhau rhagoriaeth academaidd a diwylliannol ar gyfer pob disgybl beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu, er mwyn eu datblygu fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog	<ul style="list-style-type: none"> Pob gwrs yn galluogi pob disgybl i lwyddo hyd gorau eu gallu Disgyblion ac athrawon yn mwynhau gwarsi 	<ul style="list-style-type: none"> Disgyblion yn gweithio'n galetach mewn gwarsi na'u hathrawon mewn diwylliant o gymell 	<ul style="list-style-type: none"> Pob gwrs wedi'i chynllunio yn dilyn 'confensiynau addysgu rhagorol' yr ysgol Pob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol tu hwnt i'r dosbarth
2b) Sicrhau ein bod yn darparu cwricwlwm sydd yn gyfoethog o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau, a sydd yn galluogi ein disgyblion i gyrraedd 'pen eu mynydd'	<ul style="list-style-type: none"> Darpariaeth ac amodau yn addas ar gyfer pob disgybl ac yn diwallu o ran gwybodaeth, gofynion Deddf ADY Sgiliau oedd yn arfer cael eu datblygu trwy'r Bac yn cael eu darparu trwy bynciau eraill 	<ul style="list-style-type: none"> Disgyblion a staff yn deall dibenion CiG ac yn barod i weithio gyda'r cwricwlwm newydd Pob disgybl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi eu haddysg a'u bywyddau 	<ul style="list-style-type: none"> Medrau technoleg digidol a chyfathrebu pob disgybl yn gwella Sgiliau traws-gwricwlaidd yn ffocws ym mhob gwrs Pob disgybl yn cael profiadau sy'n newydd ac yn gyffrous Darpariaeth cwricwlaidd ac allgyrsiol yn diwallu anghenion pob disgybl

Amcan	Mehefin 2022	Mehefin 2023	Mehefin 2024
Blaenoriaeth 3: Safonau Uchel			
3a) Creu diwylliant ble mae rhagoriaeth a disgwyliadau uchel yn galluogi staff a disgyblion i fod yn ymroddgar, brwdfrydig, ysbrydoledig ac uchelgeisiol	<ul style="list-style-type: none"> Presenoldeb disgyblion yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol a'r Consortiwm Cyfradd diarddel yn isel ac yn is na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol 	<ul style="list-style-type: none"> 'Teithiau cefnogi' rheolaidd i gefnogi awyrgylch bositif mewn gwarsi drwy ganolbwyntio ar uwchleuo a rhannu arfer da a rhoi clod i'r rhai sy'n cyflawni gwaith rhagorol ac yn ymddwyn yn rhagorol 	<ul style="list-style-type: none"> Barn rhanddeiliaid allanol e.e. rhieni ac ESTYN yn gadarnhaol
3b) Sicrhau fod perfformiad disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith yn adlewyrchu diwylliant ble mae rhagoriaeth a disgwyliadau uchel yn hanfodol	<ul style="list-style-type: none"> Data i'w gasglu a'i ddadansoddi yn ganolog unwaith pob tymor 	<ul style="list-style-type: none"> Pob adran i ddefnyddio systemau tracio ysgol gyfan (e.e. SMID) i dracio eu data yn rheolaidd ac mewn ffordd sy'n gyson ar draws yr ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> SPC ysgol gyfan a phob adran i gymharu'n ffafriol â chanlyniadau 2021

School Improvement Plan 2021– 2026

Objective	June 2022	June 2023	June 2024
Priority 2: Teaching and Learning			
2a) Create provision that ensures academic and cultural excellence for all pupils whatever their background and ability, in order to develop them as ambitious and capable learners	<ul style="list-style-type: none"> Every lesson enables every pupil to succeed to the best of their ability Pupils and teachers enjoying lessons 	<ul style="list-style-type: none"> Pupils working harder in lessons than their teachers in a culture of motivation 	<ul style="list-style-type: none"> All lessons planned following the school's 'excellent teaching conventions' All pupils have the opportunity to participate in cultural activities beyond the classroom
2b) Ensure that we provide a curriculum that is rich in knowledge, skills and experiences, and that enables our pupils to reach 'the top of their mountain'	<ul style="list-style-type: none"> Provision and conditions are suitable for all pupils and meet the requirements of the ALN Act Skills that used to be developed through the Bac are provided through other subjects 	<ul style="list-style-type: none"> Pupils and staff understand the purposes of CiG and are ready to work with the new curriculum All pupils have opportunities to take part in extracurricular activities that enrich their education and their lives 	<ul style="list-style-type: none"> All pupils' digital technology and communication skills improve Cross-curricular skills are the focus of each lesson All pupils have experiences that are new and exciting Curricular and extracurricular provision meeting the needs of all pupils

Objective	June 2022	June 2023	June 2024
Priority 3: High Standards			
3a) Create a culture where excellence and high expectations enable staff and pupils to be dedicated, enthusiastic, inspiring and ambitious	<ul style="list-style-type: none"> Pupil attendance higher than the average of the Local Authority and the Consortiwm Expulsion rate is low and below the Local Authority average 	<ul style="list-style-type: none"> Regular 'support tours' to support a positive atmosphere in lessons by focusing on highlighting and sharing good practice and giving credit to those who do excellent work and behave excellently 	<ul style="list-style-type: none"> Opinions of external stakeholders e.g. parents and ESTYN are positive
3b) Ensure that pupils' performance in all aspects of their work reflects a culture where excellence and high expectations are essential	<ul style="list-style-type: none"> Data to be collected and analysed centrally once each term 	<ul style="list-style-type: none"> All departments to use whole school tracking systems (e.g. SMID) to track their data regularly and in a way that is consistent across the school 	<ul style="list-style-type: none"> SPC of the whole school and each department to compare favourably with the results of 2021

Cynllun Gwella Ysgol 2021– 2026

Amcan	Mehefin 2024	Mehefin 2025	Mehefin 2026
Blaenoriaeth 4: Gwreiddio, Monitro, Gwerthuso			
4a) Gwreiddio dulliau addysgeg er mwyn sicrhau fod addysgu, dysgu, asesu a thracio yn sicrhau rhagoriaeth academaidd a diwyllianol ar gyfer pob disgybl beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu, er mwyn eu datblygu fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog	<ul style="list-style-type: none"> Pob athro ym mhob adran yn defnyddio asesu ffurfiannol i wirio dealltwriaeth a chynnydd Pob athro ym mhob adran yn defnyddio asesu crynodol er mwyn mesur ac adrodd ar gynnydd 	<ul style="list-style-type: none"> Cwestiynu a chwestiynau aml-ddewis, metawbyddiaeth, hunan-asesu ac asesu cymheiriaid yn digwydd yn naturiol mewn gwersi Tasgau adalw yn cael eu gosod fel gwaith cartref yn reolaidd ym mhob pwnn er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau 	<ul style="list-style-type: none"> Adborth safonol yn galluogi disgyblion i fod yn annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros ddysgu mewn gwersi Staff a disgyblion yn hyderus i gymryd risg a gwneud camgymeriadau er mwyn datblygu ym mhob agwedd o'u gwaith.
4b) Gwreiddio strwythur Lles a Diogelu er mwyn galluogi pawb i gydweithio mewn awyrgylch gynhyrchiol a phositif, gyda'r disgyblion yn datblygu yn unigolion iach, hyderus	<ul style="list-style-type: none"> Holl staff a disgyblion yr ysgol yn gyfarwydd â ac yn deall eu rôl o fewn strwythur Lles a Diogelu'r ysgol Disgyblion yn deall sut i gael mynediad i gymorth a chynhaliadau 	<ul style="list-style-type: none"> Tim bugeiliol i sicrhau fod eu canfyddiadau o arsylwi agweddau at ddysgu yn cael eu defnyddio i gael effaith ar lawr dosbarth 	<ul style="list-style-type: none"> Agweddau at ddysgu yn galluogi disgyblion i fod yn annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu mewn gwersi

Amcan	Mehefin 2024	Mehefin 2025	Mehefin 2026
Blaenoriaeth 5: Gwella Lles a Hapusrwydd holl Randeiliaid yr Ysgol			
5a) Gwella defnydd o'r iaith Gymraeg er mwyn creu cymuned Gymreig ble mae pawb yn teimlo perthyn ac yn ddiogel o fewn awyrgylch sydd wedi seilïo ar safonau uchel, i ddatblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus sy'n falch	<ul style="list-style-type: none"> Pob aelod o staff yn cyfeirio at werthoedd yr ysgol yn rheolaidd gan esbonio pam fod pob un yn bwysig a sicrhau fod disgyblion yn deall beth yw eu hystyr 	<ul style="list-style-type: none"> Dim Saesneg i'w glywed ar dir yr ysgol (heblaw mewn gwersi Saesneg) 	<ul style="list-style-type: none"> Safon Cymreictod rhagorol ar dir yr ysgol
5b) Gwella ymddygiad, a gwisg er mwyn galluogi pawb i gydweithio mewn awyrgylch gynhyrchiol a phositif, gyda'r disgyblion yn datblygu yn unigolion iach, hyderus	<ul style="list-style-type: none"> Safon gwisg disgyblion yn wych Y Senedd Ysgol i ystyried anghenion lles disgyblion yr ysgol ym mhob cyfarfod a sut y gellir datblygu cymorth 	<ul style="list-style-type: none"> Ethos 'cymell' cryf yn amlwg ym mhob agwedd o waith yr ysgol Ymddygiad rhagorol 	<ul style="list-style-type: none"> Parch yn amlwg ym mhob agwedd o fywyd ysgol disgyblion a staff
5c) Gwella cyfathrebu rhwng holl randeiliaid yr ysgol er mwyn galluogi pawb i gyrraedd 'pen eu mynydd' trwy fyw ein gwerthoedd o fewn gymuned hapus	<ul style="list-style-type: none"> Holl rhandeiliaid yr ysgol yn deall sut byddant yn derbyn ac yn gallu rhannu gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfathrebu effeithiol yn galluogi staff a rhieni i gyfrannu at y nod o gefnogi disgyblion i lwyddo ym mhob agwedd o'u bywydau ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfathrebu effeithiol yn sicrhau fod pob disgybl yn deall beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella ac o ganlyniad yn hyderus ac yn dyfalbarhau er mwyn cyrraedd pen eu mynydd

School Improvement Plan 2021– 2026

Objective	June 2024	June 2025	June 2026
Priority 4: Embed, Monitor, Evaluate			
4a) Embedding pedagogical methods to ensure that teaching, learning, assessment and tracking ensure academic and cultural excellence for all pupils, whatever their background and ability, in order to develop them as ambitious and capable learners.	<ul style="list-style-type: none"> All teachers in all departments using formative assessment to check understanding and progress. All teachers in all departments using summative assessment to measure and report progress. 	<ul style="list-style-type: none"> Questioning and multiple-choice questions, metacognition, self-assessment and peer assessment occurring naturally in lessons. Retrieval tasks are regularly set as homework in all subjects in order to prepare pupils for examinations. 	<ul style="list-style-type: none"> Standard feedback enables pupils to be independent and take responsibility for learning in lessons. Staff and pupils are confident to take risks and make mistakes in order to develop in every aspect of their work.
4b) Embedding a Wellbeing and Safeguarding structure to enable everyone to work together in a productive and positive atmosphere, with the pupils developing into healthy, confident individuals	<ul style="list-style-type: none"> All the school's staff and pupils are familiar with and understand their role within the school's Wellbeing and Safeguarding structure. Pupils understand how to access help and support 	<ul style="list-style-type: none"> A pastoral team to ensure that their findings from observing attitudes to learning are used to have an impact on the classroom floor. 	<ul style="list-style-type: none"> Attitudes to learning enable pupils to be independent and to take responsibility for learning in lessons.

Objective	June 2024	June 2025	June 2026
Priority 5: Improve the Wellbeing and Happiness of all School Stakeholders			
5a) Improve the use of the Welsh language in order to create a Welsh community where everyone feels they belong and feel safe within an atmosphere that is based on high standards, to develop principled, informed citizens who are proud	<ul style="list-style-type: none"> All members of staff refer to the school's values regularly, explaining why each one is important and ensuring that pupils understand what these mean. 	<ul style="list-style-type: none"> No English to be heard on school grounds (except in English lessons) 	<ul style="list-style-type: none"> An excellent standard of Welshness on the school grounds
5b) Improving behaviour, and dress code in order to enable everyone to work together in a productive and positive atmosphere, with the pupils developing into healthy, confident individuals	<ul style="list-style-type: none"> The standard of pupils' dress code becoming excellent. During every meeting, the School Senate to consider the welfare needs of the school's pupils and how support can be developed 	<ul style="list-style-type: none"> A strong 'motivation' ethos evident in all aspects of the school's work. Excellent behaviour. 	<ul style="list-style-type: none"> Respect being evident in all aspects of the school life of pupils and staff.
5c) Improving communication between all the school's stakeholders in order to enable everyone to reach their 'mountain top' by living our values within a happy community	<ul style="list-style-type: none"> All the school's stakeholders understand how they will receive and be able to share information. 	<ul style="list-style-type: none"> Effective communication enabling staff and parents to contribute to the aim of supporting pupils to succeed in all aspects of their school lives. 	<ul style="list-style-type: none"> Effective communication ensuring that all pupils understand what they do well and how to improve and, as a result, are confident and persevere in order to reach their mountain top.

Corff Llywodraethu 2022-2023 Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Cadeirydd

Mr Robert Evans, Pen-Vistla Barns,
Penllyn, Cowbridge, CF71 7RQ
robertevansswp@hotmail.com

Is-gadeirydd

Mr Geraint Evans

Clerc

Miss Charlotte Déchamps, Swyddog Llywodraethu,
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
c.dechamps@ygbm.co.uk

Mae 21 o aelodau ar y Corff Llywodraethu

Pennaeth (Llywodraethwr ex-officio)
6 Rhiant Lywodraethwr
2 Gynrychiolydd Athrawon
1 Gynrychiolydd Staff Cynnal
6 Cynrychiolydd yr AALI
5 Cynrychiolydd Cyfetholedig

Pennaeth

Mr Rhys Angell Jones

Rhieni Llywodraethwyr [cyfnod yn dod i ben]

Mr John Paul Barker [06/10/24]
Mrs Sally-ann Efstathiou [06/10/24]
Mr Richard Smith [11/10/25]
Mr Rhodri Jones [06/10/24]
Mr Rhodri Lewis [06/10/24]
Mrs Cathy Williams [06/10/24]

Cynrychiolwyr Athrawon [cyfnod yn dod i ben]

Miss Ffion Williams [31/01/27]
Miss Stephanie Johns [01/09/22]

Cynrychiolwyr y Staff Cymorth [cyfnod yn dod i ben]

Miss Lauren Tabernacle [22/10/25]

Llywodraethwyr yr AALI [cyfnod yn dod i ben]

Mr Robert Evans [18/10/24]
Mr Geraint Evans [18/10/24]
Mr Dilyn Griffith [18/10/24]
Mrs Maxine Griffiths [15/01/24]
Mr Huw Llewellyn-Morgan [18/10/24]
Cllr Mr Steffan Wiliam [18/10/24]

Llywodraethwyr Cymunedol [cyfnod yn dod i ben]

Mr Carl Brown [10/06/25]
Mrs Anne-Louise Llewellyn-Morgan [10/07/24]
Dr Paul Orders [01/09/24]
Mr Warren Scott [01/09/24]
[Un lle heb ei lenwi]

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg Governing Body 2022-2023

Chairman

Mr Robert Evans, Pen-Vistla Barns,
Penllyn, Cowbridge, CF71 7RQ
robertevansswp@hotmail.com

Deputy

Mr Geraint Evans

Clerc

Miss Charlotte Déchamps, Governance Officer,
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
c.dechamps@ygbm.co.uk

There are 21 members on the Governing Body

Headteacher (ex-officio Governor)
6 Parent Governors
2 Teacher Representatives
